Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Rhostryfan
**Neuadd Ysgol Gynradd Rhostryfan**
**Rhostryfan**
**Caernarfon**
**LL54 7LR**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2016**

**gan**


**Dr Prydwen Elfed-Owens**
**Arolygydd Cofnodol**


**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 23/06/2016**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Rhostryfan yn gylch cyfrwng Cymraeg. Mae'n cyfarfod yn neuadd bentref Rhostryfan, sydd ar safle Ysgol Gynradd Rhostryfan yn awdurdod lleol Gwynedd. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru ers 1983 i gymryd i fyny at 26 o blant ar y tro. Mae 7 plentyn dwy i dair blwydd oed yn mynychu'r cylch, 11 plentyn tair oed a ariennir gan yr Adran Addysg a 10 tair i bedair oed sy'n derbyn eu haddysg rhan amser yn yr ysgol. Mae'r lleoliad yn cynnig pedair sesiwn foreol yr wythnos o 8.45yb i 11.30yb am 38 wythnos y flwyddyn.

Daw'r mwyafrif o blant o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn iaith gartref. Yn y garfan gyfredol nid oes unrhyw blentyn wedi'i nodi ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu'n dod o gefndir ethnig.

Ar hyn o bryd, mae 5 aelod o staff, yn cynnwys arweinydd, dau ymarferydd llawn amser a dau gymhorthydd wrth law. Mae pob aelod o staff yn meddu ar gymwysterau addas ac maent yn brofiadol yn gweithio gyda phlant ifanc. Mae'r arweinydd y lleoliad wedi bod yn y swydd ers 2003.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) diwethaf ym mis Tachwedd 2015, a chan Estyn ym Mawrth 2010.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae bron bob plentyn yn gwneud cynnydd da ar draws pob maes dysgu
- mae datblygiad cymdeithasol a chorfforol plant yn dda iawn
- mae bron bob un yn mwynhau eu profiadau dysgu byrlymus a diddorol
- amgylchedd dysgu ysgogol iawn
- addysgu effeithiol
- disgwyliadau uchel staff sydd yn meithrin hyder a pharodrwydd y plant at fentro
- ansawdd, amrywiaeth a defnydd da iawn o adnoddau dan do ac awyr agored
- trefniadau effeithiol iawn ar waith i annog plant i gadw'n iach a heini

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon y lleoliad ar gyfer gwella'n dda oherwydd:

- gweledigaeth a chyfeiriad clir yr arweinydd sydd yn sicrhau cydbwysedd effeithiol rhwng gofal ac addysg plant
- dealltwriaeth bendant yr arweinwyr o gryfderau'r a meysydd gwelliant y lleoliad
- agweddau cadarnhaol a gweithredol staff tuag at ddatblygiad a hyfforddiant
- trefniadau dyddiol manwl sydd yn arwain at waith tîm effeithiol
- gweithredu diymdroi ar gyngor allanol a'i bersonoli'n fedrus i anghenion y lleoliad
- partneriaethau cadarn sydd yn cyfrannu'n adeiladol at waith y lleoliad
- pwyllgor rheoli sydd yn gefnogol a gweithredol
- gwerth da am arian

## Argymhellion

A1 Datblygu iaith y plant llai rhugl

A2 Sicrhau bod plant yn cyfrannu at benderfyniadau am eu dysgu eu hunain er mwyn datblygu eu sgiliau meddwl a datrys problemau

A3 Cynnwys y rhieni wrth wneud penderfyniadau am gamau dysgu nesaf eu plant

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae llawer o blant yn gwneud cynnydd da ar draws holl feysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen yn unol â'u gallu a'u hoedran yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau iaith sydd yn briodol i'w hoed, gallu a'u cefndir ieithyddol. Mae bron pob un yn gwrando'n ddyfal ac yn ymateb yn frwdfrydig i gwestiynau a chyfarwyddiadau'r oedolion. Maent oll yn mwynhau gwrando ar storïau ac ymunant yn frwdfrydig mewn amrywiaeth o ganeuon, hwiangerddi a rhigymau. Mae'r mwyafrif yn dysgu a defnyddio geirfa ac ymadroddion newydd o fewn tasgau ffocws ac amser cylch. Er hynny, mae ambell blentyn llai rhugl yn cael anhawster i ddeall digon i fedru ymuno ymhob gweithgaredd.

Mae'r mwyafrif yn adnabod eu henwau wrth hunan gofrestru ac ymofyn eu cotiau. Maent yn ymateb yn frwdfrydig i gardiau fflach sy'n eu cyfarwyddo i wrando, eistedd neu godi ar eu traed. Maent yn mwynhau dewis llyfrau yn annibynnol a throi at oedolyn i gyd-fwynhau eu hoff lyfrau. Mae'r mwyafrif yn datblygu medrau ysgrifennu cynnar yn dda wrth greu patrymau mewn tywod ac ewyn sebon a chreu siapau gyda thoes. Mae eu dealltwriaeth o bwrpasau ysgrifennu'n cynyddu'n naturiol ar draws yr holl feysydd dysgu, er enghraifft wrth greu labeli amrywiol neu lunio rhestr siopa.

Mae llawer yn datblygu medrau rhifedd da. Mae'r rhan fwyaf yn gallu cyfrif i bump yn hyderus a dosbarthu gwrthrychau o wahanol faint neu liw yn gywir. Mae llawer yn gallu defnyddio'r medrau hyn wrth chwarae a chyflawni gweithgareddau penodol. Er enghraifft, maent yn parcio'r pedwar car yn ôl yn eu trefn wrth dacluso ar ôl chwarae.

Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o'r plant yn rhagorol. Mae bron bob un yn mentro'n hyderus ar weithgareddau heriol iawn yn yr ardal allanol. Maent yn defnyddio offer bach fel brwsys paent a siswrn yn llwyddiannus. Mae'r mwyafrif yn astudio planhigion a dail yn fanwl gyda chwyddwydrau a chyfeirio at luniau tebyg mewn llyfrau cyfeirol syml.

**Lles: Da**

Mae bron pob plentyn yn ymgartrefu'n dda iawn ac yn ymgyfarwyddo'n gyflym â gweithdrefnau'r lleoliad. Maent yn symud yn hyderus iawn rhwng gweithgareddau. Mae'r rhan fwyaf yn dyfalbarhau am gyfnodau sylweddol wrth gwblhau tasgau. Mae ychydig o'r plant mwy abl yn canolbwyntio'n ddwys; er enghraifft wrth ddewis a dethol dodrefn i'r ystafelloedd cywir yn y tŷ dol.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymddwyn yn gyson dda. Maent yn datblygu perthynas gwerth chweil â'i gilydd, gan ddangos hunanreolaeth arbennig, er enghraifft wrth aros eu tro am eu hoff gar pinc. Mae llawer o'r plant yn rhannu a chymryd eu tro yn amyneddgar er enghraifft, wrth ddisgwyl rhannu chwyddwydr i astudio perlysiau.

Felly, maent yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn effeithiol, gan ddangos ystyriaeth am deimladau ei gilydd.

Mae bron pob un yn gwneud dewisiadau hyderus iawn parthed lle maent yn dymuno chwarae a pha adnoddau sydd yn briodol a thrwy hynny, maent yn aeddfedu'n ddysgwyr annibynnol. Mae brwdfrydedd, hyder a menter bron bob un wrth ddefnyddio adnoddau'r cae chwarae yn werthchweil.

Mae bron pob un yn deall y dylent olchi eu dwylo wedi defnyddio'r toiled a chyn bwyta. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig iawn mewn gweithgareddau dawnsio i'w cadw'n heini, ac maent yn mwynhau bwyd iach adeg byrbryd. Mae bron bob un yn cymryd cyfrifoldeb aeddfed am dacluso.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol iawn i gynllunio ystod ddifyr o brofiadau dysgu gwerthfawr sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o'r plant yn y lleoliad. Ar y cyfan, maent yn bodloni anghenion plant ar wahanol gamau datblygu yn dda. Maent yn darparu gweithgareddau heriol i'r plant mwy abl yn gyson trwy bennu tasgau estynedig a geirfa gyfoethocach iddynt. Ar y llaw arall, ceir enghreifftiau o gefnogaeth lai effeithiol i blant nad sydd yn hyderus yn yr iaith.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu dealltwriaeth well o'r byd y maent yn byw ynddo trwy ddilyn themâu addas, fel 'Hydref', 'Dathlu' a'r 'Ardd'. Maent yn trefnu ymweliadau diddorol o gwmpas yr ardal leol i gefnogi dealltwriaeth plant o'r themâu. Er enghraifft, fe wnaeth ymweliad i'r goedwig gyfagos godi ymwybyddiaeth plant o newidiadau tymhorol coed a phlanhigion.

Mae ymarferwyr yn helpu plant i sylweddoli y dylent drin popeth byw gyda gofal, a pharch. Maent yn gwneud hyn yn effeithiol drwy, er enghraifft, baratoi bwyd i'r adar yn ystod y gaeaf ac yn tyfu blodau yn y Gwanwyn. Mae'r rhan fwyaf yn mwynhau cyfleoedd gwerthfawr i arbrofi â phrofiadau newydd wrth archwilio priodweddau planhigion gyda llyfrau a chwyddwydrau. Fodd bynnag, mae plant yn cael llai o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau meddwl a datrys problemau drostynt eu hunain.

Mae pob ymarferwyr yn fodel da iawn o iaith raenus sydd yn cyfoethogi iaith y plant yn ddyddiol. Maent yn cynllunio'n effeithiol iawn i ddatblygu medrau cyfathrebu, llythrennedd a rhifedd plant i sicrhau bod medrau plant yn datblygu'n systematig. Er enghraifft, maent yn nodi geirfa a chymalau penodol i gyd-fynd â gweithgareddau a'u hailadrodd yn gyson.

Maent yn dathlu a dysgu am eu treftadaeth mewn modd ystyrlon. Er enghraifft, maent yn dathlu Gŵyl Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi, gan drafod gwisg a bwydydd Cymreig, a chanu caneuon traddodiadol.

**Addysgu: Da**

Mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad plant yn sensitif ac effeithiol iawn. Dilynant drefn gyson a defnyddiant ganmoliaeth ac anogaeth yn dda i helpu plant i rannu, cymryd eu tro a dilyn cyfarwyddiadau.

Mae ymarferwyr yn fodelau iaith da, gan rannu geirfa gyfoethog gyda'r plant trwy eu dewis o themâu a'u defnydd o straeon, caneuon a rhigymau amrywiol. Fodd bynnag, yn aml, nid yw eu medrau holi a chwestiynu yn ddigonol i herio ac i hyrwyddo eu medrau meddwl yn enwedig yn y gweithgareddau rhydd.

Cynigiant amgylchedd difyr ac ysgogol dan do a gwnânt ddefnydd ardderchog o'u hardal awyr agored a'r gymuned leol. O ganlyniad, mae plant yn cymryd rhan yn dda, yn gwneud cynnydd da ac yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad.

Mae'r lleoliad yn defnyddio system gynnil ac effeithiol i asesu cynnydd plant ar draws pob maes dysgu. Maent yn dechrau defnyddio hyn yn effeithiol i gynllunio camau'r dysgu nesaf ac i greu trosolwg o gynnydd plant.

Estynnant wahoddiad agored i rieni drafod cynnydd eu plant yn anffurfiol unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn. Maent yn trosglwyddo cofnod deniadol o waith y plant pan fyddant yn gadael y lleoliad. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynnwys rhieni wrth asesu plant fel eu bod yn ymwybodol o'u cynnydd a beth gallant wneud i'w helpu i wella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau'r lleoliad i gefnogi iechyd a lles plant, a'u hannog i ofalu amdanynt eu hunain yn dda. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog plant i wisgo'u cotiau cyn mynd allan ac i olchi eu dwylo cyn bwyta. Mae'r plant yn dod â byrbryd eu hunain ac mae'r ymarferwyr yn eu hannog i fwyta bwyd iach megis ffrwythau ffres ac iogwrt. Caiff plant gyfleoedd dyddiol i fwynhau ymarfer corff egnïol a threulio amser sylweddol yn yr awyr agored.

Mae ymarferwyr yn darparu profiadau dysgu gwerthfawr, sy'n meithrin profiadau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn gadarnhaol. Er enghraifft, mae plant yn dysgu medrau cymdeithasol pwysig fel ymateb i gyfarwyddiadau, eistedd wrth fwrdd i fwyta a diolch am eu bwyd fel rhan o'u trefn ddyddiol.

Maent yn dechrau dysgu am ddiwylliannau eraill yn effeithiol wrth ddathlu Diwali a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Mae'r holl ymarferwyr yn annog gwerthoedd pwysig fel tegwch, parch at eraill ac ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn helpu plant i adnabod pwysigrwydd bod yn deg wrth aros yn amyneddgar a chymryd eu tro ar eu hoff deganau megis y ceir a'r lorïau mecanyddol. Mae trefniadau addas ar waith i blant ddysgu am bwysigrwydd ailgylchu deunyddiau, fel papur, plastig a bwyd gwastraff.

Mae ystod briodol o bolisïau ar waith gan y lleoliad i ddiogelu plant a hybu eu lles ac maent yn dilyn gweithdrefnau'n effeithiol. O ganlyniad, mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae systemau priodol i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae'r lleoliad yn manteisio ar gymorth gan asiantaethau arbenigol fel bo'r gofyn.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae i'r lleoliad ethos cynnes, cartrefol a chynhwysol. Mae ymarferwyr yn dangos gofal a pharch tuag at yr holl blant ac yn sicrhau eu bod yn manteisio'n gyfartal ar amrediad o weithgareddau.

Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr profiadol â chymwysterau addas i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen. Maent yn ysgogi'r plant i ddatblygu agweddau goddefgar ac i ddysgu cydweithredu â'i gilydd wrth chwarae.

Mae'r amgylchedd dan do yn ddiogel a chaiff ei gynnal yn fuddiol. Mae'n lliwgar ac ysgogol ac mae'r lleoliad yn defnyddio'r lle sydd ar gael iddynt yn dra effeithiol. Mae ymarferwyr yn paratoi arddangosfeydd pwrpasol sy'n dathlu gwaith plant ac yn cefnogi eu themâu yn briodol.

Mae'r lleoliad yn darparu amrywiaeth dda iawn o adnoddau i'r plant eu defnyddio. Maent yn addas, yn hygyrch ac o ansawdd. Yn ddiweddar, ac yn unol â'u blaenoriaethau, maent wedi pwrcasu cyflenwad o deganau mecanyddol. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar brofiadau dysgu plant.

Mae gan y lleoliad fynediad i ddwy ardal awyr agored, sef buarth yr ysgol ac ardal chwarae'r gymuned. Mae'r ddau le yn ddiogel ac yn cael eu cynnal yn dda. Mae gan y lleoliad gwt newydd ar y buarth i storio adnoddau ac i chwarae rôl yn unol â ffocws eu themâu. Yn yr ardal chwarae mae digon o le i blant fentro a datblygu eu medrau corfforol i'r radd uchaf. Mae ganddynt adnoddau amrywiol o safon uchel iawn; er enghraifft sleid, wal ddringo, siglen a si-so.

Mae'r lleoliad yn defnyddio'r amgylchedd lleol yn dda i gyfoethogi profiadau dysgu plant. Er enghraifft, maent yn ymweld â theulu o hwyaid ar lyn cyfagos a choedwig leol i sylwi ar newidiadau tymhorol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd weledigaeth a chyfeiriad clir sydd yn sicrhau cydbwysedd effeithiol iawn rhwng gofal ac addysg plant. Mae'r ymarferwyr yn rhannu ymdeimlad cryf o bwrpas ac maent yn cydweithio'n dîm effeithiol. Maent yn creu amgylchedd hapus a phwrpasol lle mae'r plant yn meithrin hyder a pharodrwydd i fentro. Mae gan bob un ddisgwyliad uchel ohono ei hun sy'n arwain at safon dda o ofal ac addysg yn y lleoliad.

Mae'r pwyllgor rheoli yn gefnogol ac yn cynnig cymorth gwerthfawr, sy'n cyfrannu'n effeithiol at rediad hwylus y lleoliad. Mae'r pwyllgor yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion pwysig fel cynnal a chadw'r adeilad a phrynu adnoddau yn ôl eu blaenoriaethau.

Mae prosesau priodol ar waith i reoli perfformiad ymarferwyr. Mae arweinwyr yn defnyddio'r rhain yn dda i nodi anghenion datblygiad; er enghraifft wrth gynnwys pob ymarferydd yng ngweithrediad dulliau asesu newydd. Fel canlyniad, mae plant yn elwa o'r cysondeb ac o brofiadau dysgu o ansawdd da.

Mae arweinwyr yn rhoi sylw da i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Maent yn sicrhau bod ffocws cryf ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant, yn ogystal â sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd da i ddysgu am fwyta'n iach a chadw'n heini.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr arweinwyr ymrwymiad cadarnhaol i wella'n barhaus ac mae'r broses hunan arfarnu yn rhan annatod o fywyd a gwaith y lleoliad. Mae ganddynt ddealltwriaeth bendant o gryfderau a meysydd gwelliant y lleoliad. Maent yn gweithredu ar y rhain yn effeithiol iawn.

Maent yn nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu yn glir gyda chymorth yr athrawes ymgynghorol. Defnyddiant yr wybodaeth hon yn llwyddiannus i greu cynllun gwella defnyddiol sy'n cynnwys targedau penodol a chyfleoedd i arfarnu cynnydd. Mae arweinwyr yn gwneud cynnydd da iawn tuag at gyflawni'r targedau a blaenoriaethu gwariant cyllid. Er enghraifft, prynodd yr arweinwyr deganau mecanyddol rheoli newydd fel rhan o'r cynllun diweddar i wella'r ddarpariaeth. O ganlyniad, mae plant yn mwynhau ymwneud â'r rhain, gan ddatblygu eu medrau technolegol yn effeithiol iawn ar draws y meysydd dysgu. Mae arweinwyr yn rhannu eu dogfen hunan arfarnu a'u cynllun gwella yn briodol gyda'r pwyllgor rheoli, gan sicrhau eu cefnogaeth wrth weithio tuag at dargedau penodol.

Mae arweinwyr yn gweithio'n dda iawn gydag asiantaethau eraill fel athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Maent yn agored i syniadau newydd ac yn barod iawn i'w cymhwyso i wella'r lleoliad. Er enghraifft, dilynant gyngor athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol i gynnwys pob ymarferydd yn y broses o asesu cynnydd a chamau nesaf plant. Gweithredodd yr arweinwyr yn syth yn dilyn arolygiad diwethaf Estyn, gan annog plant i rannu eu profiadau a'u gwaith gydag eraill yn effeithiol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad wedi datblygu ystod fuddiol iawn o bartneriaethau sy'n cyfrannu'n adeiladol iawn at gyflawniadau a lles plant.

Mae ymarferwyr yn gwneud llawer o ymdrechion effeithiol i rannu gwybodaeth â rhieni. Mae'r holl rieni'n derbyn llyfryn cynhwysfawr pan fydd eu plant yn cychwyn yn y lleoliad. Mae arweinwyr yn cynnig gwahoddiad agored i rieni er mwyn iddynt drafod cynnydd a lles eu plant yn anffurfiol. Maent yn cyflwyno 'Dyma Fi' iddynt ar ddiwedd cyfnod y plant yn y lleoliad. Mae hwn yn gofnod deniadol o luniau'r plant wrth eu gwaith ac esiamplau o'u cynnyrch yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn cynnwys y rhieni wrth wneud penderfyniadau am gynnydd a chamau dysgu nesaf eu plant.

Mae ymarferwyr yn defnyddio cysylltiadau cymunedol yn effeithiol iawn i gefnogi dysgu plant. Er enghraifft, maent yn defnyddio ardal chwarae'r pentref yn ddyddiol i ddatblygu medrau corfforol pob plentyn. Maent hefyd yn hybu dealltwriaeth y plant o'r byd o'u cwmpas a'u hardal leol drwy eu tywys ar deithiau amrywiol.

Mae'r berthynas rhwng y lleoliad a'r ysgol leol yn gryfder. Maent yn rhannu'r un weledigaeth am ddatblygiad y plant a'r lleoliad. Maent yn cydweithio'n dra effeithiol i amserlennu'r defnydd o neuadd a buarth yr ysgol ac i rannu adnoddau. Mae'r plant yn ymweld â'r ysgol yn ystod tymor yr haf i'w helpu i baratoi ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r cydweithio gyda swyddog datblygu Mudiad Meithrin yn effeithiol. Mae'r bartneriaeth gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol yn cynorthwyo gwelliant parhaus yn effeithiol iawn. Mae'r arweinydd yn agored i syniadau newydd ac argymhellion ac yn eu teilwra'n gelfydd i anghenion y lleoliad cyn eu gweithredu.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r holl ymarferwyr yn gymwys ac wedi cael profiad eang o weithio gyda phlant ifanc ar draws y blynyddoedd. Gwnânt ddefnydd da o'u diddordebau a'u cryfderau i wella profiadau dysgu plant, fel hyrwyddo mwynhad mewn rhythmau, offerynnau a symud i gerddoriaeth hwyliog.

Mae'r holl ymarferwyr yn manteisio ar ystod dda o hyfforddiant a datblygiad pwrpasol i'w galluogi i fod yn gyfredol a hyderus wrth eu gwaith. Er enghraifft, mae hyfforddiant diweddar ar asesu wedi gwella'u dealltwriaeth o'r broses ac wedi arwain at gysondeb yn eu dull o weithredu. Maent hefyd yn elwa o ddysgu oddi wrth leoliadau eraill a rhannu arfer dda trwy drefniadau'r awdurdod lleol.

Mae'r arweinwyr yn blaenoriaethu gwariant yn ôl anghenion y lleoliad er enghraifft i sicrhau adnoddau amrywiol i gefnogi datblygiad sgiliau TGCh y plant. Maent yn defnyddio cyllid yn effeithlon i sicrhau bod y grŵp yn parhau'n gynaliadwy.

O ystyried y barnau cadarnhaol yn yr addysgu a'r dysgu, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Dr Prydwen Elfed-Owens | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |